



St Aubin, The Lodge OOSC

Case Study: The Impact of Moondance Funded Places

Moondance Funded Places has made a significant difference to a child and their family by funding the child's place at our setting and enabling us to provide the one-to-one support they required.

Without this financial support, accessing the setting and the level of individual support needed would have been more difficult for the family. The funding ensured that the child could continue to attend a safe, familiar and nurturing environment, surrounded by a team they already knew and trusted.



Impact on the Child

Having their place funded through Moondance gave the child stability and consistency. They could spend time in a familiar environment where they felt comfortable and secure, while receiving dedicated one-to-one supervision tailored to their individual needs.

The one-to-one support allowed us to follow the child's lead. Rather than expecting them to participate in activities in a particular way, we could respond to how they were feeling and what they needed at different points throughout the session.

The child was able to play, explore and express themselves at their own pace. They could join their peers and participate in group experiences when they felt ready, while also having the option to step away and access quieter space and individual support when needed.

This child-led approach created positive opportunities for play, learning, social interaction, emotional wellbeing, and development, while ensuring the child felt safe and supported throughout their time with us.

Impact on the Family

The benefits of Moondance funding also extended to the wider family. Knowing that their child's place was funded and that they were being cared for in a familiar environment by a trusted team provided important reassurance for the parents.

It enabled parents to keep working when needed and created opportunities to spend valuable one-to-one time with their other children.

For the family, this meant more than simply having access to childcare. It provided stability, reassurance and practical support, knowing their child was somewhere they felt comfortable and where their individual needs were understood and supported.

Impact on Our Setting

Moondance Funded Places enabled our setting to provide individual support that made the child's experience much more meaningful.

At the same time, the child remained part of the wider setting and had opportunities to interact, play and build relationships with their peers.



Overall Impact

Moondance Funded Places removed barriers to the child's access to a safe, familiar and inclusive childcare environment.

For the child, this meant being able to play, learn, socialise and express themselves in their own way, with individual support available whenever they needed it.

For the family, it provided reassurance and stability while allowing parents to work and spend important one-to-one time with siblings.

Most importantly, the funding enabled us to put the child at the centre of their care. We could follow their lead, respect their individual needs, and ensure their time with us was safe, positive, and meaningful.



St Aubin, The Lodge OOSC

Astudiaeth Achos: Effaith Lleoedd wedi'u Hariannu gan Moondance

Mae Lleoedd wedi'u Hariannu gan Moondance wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i blentyn a'i deulu drwy ariannu lle ar gyfer plentyn yn ein lleoliad a'n galluogi i ddarparu'r cymorth un-i-un yr oedd ei angen arno.

Heb y cymorth ariannol hwn, byddai cyrchu'r lleoliad a'r lefel o gymorth unigol yr oedd ei angen wedi bod yn anos i'r teulu. Sicrhaodd yr arian y gallai'r plentyn barhau i fynychu amgylchedd diogel, cyfarwydd a meithringar, gyda thîm o'i gwmpas yr oedd yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.



Effaith ar y Plentyn

Roedd cael ei le wedi'i ariannu drwy Moondance wedi darparu sefydlogrwydd a chysondeb. Gallai dreulio amser mewn amgylchedd cyfarwydd lle'r oedd yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, wrth dderbyn goruchwyliaeth un-i-un ymroddedig wedi'i theilwra i'w anghenion unigol.

Roedd y cymorth un-i-un wedi ein galluogi i ddilyn arweiniad y plentyn. Yn hytrach na disgwyl iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ffordd benodol, gallwn ymateb i'r ffordd yr oedd yn teimlo a'r hyn yr oedd ei angen arno ar wahanol adegau drwy gydol y sesiwn.

Roedd y plentyn yn gallu chwarae, archwilio a mynegi ei hun ar ei gyflymder ei hun. Gallai ymuno â'i gyfoedion a chymryd rhan mewn profiadau grŵp pan oedd yn teimlo'n barod, tra hefyd yn cael yr opsiwn i gamu'n ôl a chael mynediad at le tawelach a chymorth unigol pan oedd angen.

Roedd y dull hwn, a oedd yn cael ei arwain gan y plentyn, wedi creu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer chwarae, dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, llesiant emosiynol a datblygiad, wrth sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei gefnogi drwy gydol ei amser gyda ni.

Effaith ar y Teulu

Roedd buddion arian Moondance hefyd yn ymestyn i'r teulu ehangach. Roedd gwybod bod lle eu plentyn wedi'i ariannu a'i fod yn cael gofal mewn amgylchedd cyfarwydd gan dîm yr oeddent yn ymddiried ynddo wedi darparu cysur i'r teulu.

Galluogodd rieni i barhau i weithio pan oedd angen a chreu cyfleoedd i dreulio amser un-i-un gwerthfawr gyda'u plant eraill.

I'r teulu, roedd hyn yn golygu mwy na chael mynediad at ofal plant yn unig. Roedd yn darparu sefydlogrwydd, cysur a chymorth ymarferol, gan wybod bod y plentyn mewn lle yr oedd yn teimlo'n gyfforddus ynddo, a lle'r oedd ei anghenion unigol yn cael eu deall a'u cefnogi.

Effaith ar ein Lleoliad

Mae Lleoedd wedi'u Hariannu gan Moondance wedi galluogi ein lleoliad i ddarparu cymorth unigol sy'n gwneud profiad y plentyn yn llawer mwy ystyrlon.

Ar yr un pryd, mae'r plentyn wedi aros yn rhan o'r tîm ehangach ac wedi cael cyfleoedd i ryngweithio, chwarae a meithrin perthnasoedd gyda'i gyfoedion.



Effaith ar y Cyfan

Mae Lleoedd wedi'u Hariannu gan Moondance wedi cael gwared ar rwystrau fel y gall y plentyn gyrchu amgylchedd gofal plant diogel, cyfarwydd a chynhwysol.

I'r plentyn, roedd hyn yn golygu gallu chwarae, dysgu, cymdeithasu a mynegi ei hun yn ei ffordd ei hun, gyda chymorth unigol ar gael pryd bynnag yr oedd ei angen arno.

I'r teulu, roedd yn darparu cysur a sefydlogrwydd wrth alluogi'r rhieni i weithio a threulio amser un-i-un pwysig gyda brodyr a chwiorydd.

Yn bwysicaf oll, roedd yr arian wedi ein galluogi i roi'r plentyn wrth wraidd ein gofal. Gallem adael iddo arwain, parchu ei anghenion unigol, a sicrhau bod ei amser gyda ni yn ddiogel, cadarnhaol ac yn ystyrlon.